# Cyngor Cymuned Pentir

**Cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 28ain o Hydref 2020**
**yn Rhithiol am 7.00pm.**

## Cofnodion

Presennol Cyng L A James (Cadeirydd) Cyng D Jones-Morris Cyng D W Jones a Cyng B Jones

Ymddiheuriadau _Cyng J Pierce

Cod Ymddygiad Atgoffwyd pawb o'r Cod ymddygiad ag os oedd gan rhywun angen datgan buddiant yna byddai angen iddynt wneud hynny ar lafar heno fel y gallai'r Clerc gofnodi
Ni fu unrhyw Ddatgan Buddiant

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 07-10-2020
Cyng D Jones-Morris yn cynnig a'r Cyng B Jones yn eilio eu bod yn gofnodion cywir

Materion yn codi o'r cofnodion
**Asesiad Risg** Ymddiheurwyd nad oedd cyfle wedo bod i adolygu y gofrestr
**Graddfeydd Cyflog** - Y clerc heb anfon y manylion at y Cadeirydd i fedru cadarnhau i'r Cyfrifwyr fod Pwynt 23 bellach ers y 1af o Ebrill 2020 yn £14.42 yr awr yn hytrach na £14.03
Gamlins Er gwaetha pob ymdrech - yr unig ymateb dderbynwyd o'r Cyfreithwyr oedd nad oeddent wedi darganfod unrhyw ohebiaeth am y Ganolfan yn Glasinfryn yn 2014-15 Adroddodd y Clerc iddo lun-gopio yr ohebiaeth oedd gennym mewn ffeil o'r amser ag wedi ei danfon i Parc Menai pnawn heddiw

Adroddiad Ariannol
'Roedd y Clerc wedi dosbarthu yn electronig y fantolen ariannol oedd yn dangos £45,306.82 yn y cyfrif cyfredol ar 06-10-20 ond y gwir gyfanswm yw £44,291.26 a £25,036.57 yn y cyfrif cadw

Archwylwyr Allannol Ymateb/ymholiadau wedi dod o BDO 15/10/20 ar 5 pwynt a'r Clerc wedi ymateb iddynt i gyd y 20/10/20
Rhannwyd y ddogfen anfonwyd yn ol a cais i'r Clerc rannu hynny hefo gweddill y Cyngor wrth anfon Agenda i'r Cyngor Llawn nesaf
Dim ymateb pellach wedi dod
Ceisiadau Nawdd .

- Parchu Pentir Cais wedi ei dderbyn am nawdd gan iddynt fod oherwydd y cloy n methu cynnal gweithgareddau i godi arian **Argymell cyfrannu £300**
- Llais Ogwan Mantolen ariannol gyfredol bellach wedi cyrraedd **Argymell cyfrannu £300**

Taliadau angen sylw Yn dilyn argymhellion y Cyngor Llawn y Clerc wedi symud ymlaen i archebu 3 Diffibrilydd newydd a blychau i'w cadw

| | | |
|---|---|---|
| Diffibryddion Zoll am 3 Peiriant x £800 + Cludiant = £2419.90 + TAW | | = £2903.86 |
| Blychau Polycarbonate a braced i'w dal ar bolion +cludiant £1578.95 +TAW | | = £1894.74 |
| Cyflog | Mis Hydref | = £ 583.76 |
| Treth Incwm | Mis Hydref | = £ 145.80 |
| Scottish Power | Trydan y Capel Di cael amcanbris o £778.45 sy'n amlwg allan ohoni | = £ 47.99 |
| D W Lewis | Torri gwair Hydref | = £635.00 |
| Neuadd Rhiwlas | Storio Mai i Hyd 2020 | = £240.00 |
| E A Williams | Gofalu y Capel a'r Fynwent **Tal blwyddyn yn ddyledus** | = £300.00 |

Darllenwyd llythyr o ymddiswyddiad yr ofalwraig ar ol 25 mlynedd o wasanaeth.

Fel cydnabyddiaeth o'i gwasanaeth cytunwyd i'r Cadeirydd anfon cerdyn a blodau iddi o'r Cyngor

Derbynebion Angladdau Medi /Hydref - 1x £500 M Rowlands Llangefni a 3 J Turner £200 - £110 a £150

Cyfanswm o £960 wedi ei fancio ddoe 27.10.20

Prosiectau angen sylw

- Cae Chwarae Caerhun - Gan nad oedd archwyliad RoSPA wedi adnadod risg uchel i ddiogelwch defnyddwyr ac oherwydd fod 2 gae chwarae arall yn dod o dan ofalaeth y cyngor yma dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf cytunwyd y byddai'n well disgwyl i weld ym mha gyflwr byddai rheini yn cael eu trosglwyddo cyn gwario arian sylweddol yn Caerhun.
  **Clerc i holi Cyngor Gwynedd am adroddiada archwylio y ddau gae dan sylw Glasinfryn a Ffordd Cynan neu gael caniatad i ofyn i RoSPA eu archwylio yn annibynol**
- Lon i gyfeiriad Canolfan Glasinfryn
  Dim diweddaraiad yma gan nad oedd ymateb wedi dod iddiwrth ein Cyfreithwyr
- Garddwr i'r bocsus Blodau Y Clerc wedi cysylltu a Mr G Hughes i gadarnhau ei benodiad

I'w trafod hefyd

- Asesu Risg Angen sylw mor fuan a phosib
- Diweddariad Prosiect Ysgol Y Faenol
  Y Clerc a'r Cyng D Jones-Morris wedi ymweld ar safle ar ran y Cyngor. Cyng M Baines (Cyng Sir) a Cyng L A James (Cynrychiolydd Llywodraethwyr Ysg Y Faenol) ar ddwy ar bwyllgor rheoli y ganolfan wedi mynychu hefyd.
  Y gwaith yn mynd ymlaen yn dda a chyfle i ail-ymweld ymhen rhyw fis pan fydd y ffenestri wedi eu gosod
  Pwyntiau trafod – Fydd y Drws ffrynt i'r ganolfan newydd yn ddrws awtomatig
  - Trafod torri coed rhwng yr adeilad a'r ffordd fawr ag ailsefydlu'r gwrych
  - Dewis lliwiau – Pwyllgor rheoli'r ganolfan i ddewis
  - Oes angen edrych ar ein logo a'i uwchraddio/moderneiddio

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30